Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Ken Skates AS
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd

22 Mai 2020

Annwyl Ken,

Diolch am roi o'ch amser i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 11 Mai. Gan fod amser yn brin, roedd ambell faes nad oedd cyfle i'r Pwyllgor eu trafod yn ein cwestiynau. Rydym wrthi'n llunio adroddiad sy'n amlinellu ein canfyddiadau cychwynnol yn dilyn ein sesiwn gydag arweinwyr busnes ac undebau a'ch sesiwn chi.

Yn ogystal â'r materion a gaiff sylw yn yr adroddiad, byddai'n dda gennym gael gwybod eich barn ar y materion isod, sy'n edrych yn fwy tua'r dyfodol, nad oedd amser i ni eu trafod gyda chi:

- Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith hirdymor y feirws ar y galw am drafnidiaeth ac ar batrymau teithio?

- Pa newidiadau hirdymor y gallai fod eu hangen i flaenoriaethau'r gyllideb drafnidiaeth a pholisi yn gyffredinol?

- Beth fydd effaith y pandemig ar fuddsoddiadau seilwaith mawr o ran eu cyflawni a'u hyfywedd? Yn benodol, trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, y tair rhaglen metro a chynlluniau priffyrdd yn fwy cyffredinol?

- Mae'r Fframwaith ar gyfer adferiad yn dilyn y pandemig a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn sôn am achub ar gyfleoedd a allai gael effaith gadarnhaol hirdymor ymhell i'r dyfodol. Beth fyddai hynny'n ei olygu ym maes trafnidiaeth?

Cofion gorau,

Russell George MS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565